S4C Cyw




Croeso i Comic Cyw!







Wyt ti'n **hoffi stori?**
Hoffi posau di-ri?
Ac wyt ti'n hoffi lliwio?
Wel, dyma'r lle i ti!




Mae **cyffro mawr** i'w deimlo
gan bob un o'r criw,
Jangl, Bolgi, Deryn, Triog,




Llew a Plwmp a Cyw.



Mae'r anifeiliaid **wrth eu bodd,**
mae pawb yn **teimlo'n dda.**



Mae **Comic Cyw** wedi cyrraedd –
darllena a mwynha!



Wyt ti'n gwybod...?
Mae pob math o ffeithiau doniol a difyr yn Comic Cyw. Cofia eu darllen!

I'r oedolion
Edrychwch am bawen lawen Llew. Yma mae gwybodaeth am sut y gall y gweithgaredd helpu eich plentyn.

Y Nadolig Gorau Erioed

gan Anni Llŷn



Roedd hi'n Noswyl Nadolig, ond roedd Llew wedi pwdu. Doedd o ddim eisiau paratoi a helpu.



Roedd Llew eisiau chwarae a bwyta siocled tra bod Cyw a'r criw yn gweithio'n galed.



"Ond Llew," meddai Cyw, "mae angen i ti wneud mins peis. Ffefrynnau Siôn Corn – cacennau blasus, neis!"



"Beth am Bolgi?" holodd Llew. "Wneith o goginio!" Ond roedd Bolgi'n rhy brysur yn gorffen addurno.



“Neu Jangl?” holodd wedyn. Ond roedd Jangl hefyd yn brysur yn lapio anrhegion hyfryd.



“Beth am Plwmp a Deryn? Ble maen nhw?”
“Wedi mynd ag anrheg i Gwen y Gwdihŵ.”



Ac yn wir i chi, ar ôl dechrau yn y gegin, roedd Llew yn mwynhau, yn gwenu a chwerthin.



Coginiodd bentwr o fins peis blasus. “Dwi’n siŵr bydd Siôn Corn yn andros o hapus!”



“Wel, Triog felly – gall hi ddod i helpu.” “Mae Triog yn nôl y llysiau at fory.”



“Dere Llew,” meddai Cyw yn garedig. “Mae paratoi yn rhan o hwyl y Nadolig.”



A’r noson honno, daeth Siôn Corn i’w ddeffro: “Diolch am y mins peis!” Oedd Llew yn breuddwydio?



“Nadolig Llawen Llew!” bloeddiodd, wrth hedfan dros y coed. “Waw!” sibrydodd Llew. “Dyma’r Nadolig gorau erioed!”

Cwis
Y Nadolig Gorau Erioed

I'r oedolion
Os ydy'ch plentyn yn ansicr, beth am ddarllen y stori gyda nhw eto?

Pwy oedd yn pwdu ar Noswyl Nadolig?



Llew

neu



Plwmp

Rho gylch o gwmpas yr ateb cywir.

Beth oedd Jangl yn brysur yn ei wneud?



lapio anrhegion

neu



addurno

Beth wnaeth Llew goginio ar gyfer Siôn Corn?



mins peis

neu



pwdin Nadolig

I wrando ar y gân 'Y Nadolig Gorau Erioed' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Gweld y Gwahaniaeth

Mae Cyw yn paratoi bwyd ar gyfer y Nadolig.
Wyt ti'n gallu gweld 5 gwahaniaeth rhwng y ddau lun?





Beth yw dy hoff fwyd?

1 ✓ 2 ✓ 3 ✓

4 ✓ 5 ✓

Canu Carolau

Wyt ti'n gallu helpu Bolgi a Triog i ganu carolau i bob un o'u ffrindiau cyn cyrraedd Tŷ Cyw?




I wrando ar y gân 'Mae'n Nadolig' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Wyt ti'n gallu enwi'r anifeiliaid yma?



Dewi a'i Deulu

Lliwia'r llun o Dewi Deinosor gyda'i fam a mami.



Cyw

6:00
Bob dydd Every day
s4c.cymru/cyw

Archarwyr Byd Cyw

Bybls

gan Sioned Wyn Roberts



Roedd Llew yn golchi dillad pan ddigwyddodd rhywbeth od iawn. Daeth bybls melyn, coch a glas allan o'r peiriant a llenwi'r ystafell i gyd.




O-o! Yn anffodus, roedd Llew wedi golchi clogyn archarwr Cyw. Y clogyn melyn sy'n rhoi'r siwpyr-bŵer iddi neidio'n uchel.




"O na!" meddai Jangl, "Rwyt ti wedi golchi fy nghlogyn coch i. Yr un sy'n rhoi'r siwpyr-bŵer i fi fynd yn gyflym fel y gwynt."




"Ac un fi," meddai Triog. "Fy nghlogyn glas sy'n rhoi'r pŵer archarwr i fi ddod â phethau pell yn agos."




Roedd Llew druan wedi gwneud camgymeriad mawr iawn. Nawr roedd rhaid iddo edrych yn ofalus ar bob clogyn. Ydyn nhw wedi colli lliw? Na. Ydyn nhw wedi mynd yn llai? Na.



"Ffiw!" meddyliodd Llew wrth wisgo ei hoff grys-T glân.
Ond, yn sydyn, dechreuodd y crys-T gosi i gyd ac yna fflachiodd mewn lliwiau coch, melyn a glas. A'r munud nesa...



... roedd Llew yn neidio i fyny, yn taro'r nenfwd ac yn ping-pongio fel pêl ping-pong o amgylch y stafell. Roedd o'n bownsio i fyny ac i lawr, yn gynt ac yn gynt.



Roedd Llew wrth ei fodd! Dechreuodd ysgwyd ei gynffon, ac ar unwaith daeth pethau pell yn agos. Roedd Llew fel magned – slipars Plwmp ar ei ben, mwclis Jangl ar ei gynffon, a chrempog ar ei drwyn!



Am archarwr! Roedd Llew yn gallu neidio'n uchel, symud yn gyflym, a denu pethau pell yn agos ato. Tri siwpyr-bŵer ar yr un pryd!



"Ti'n archarwr anhygoel!" meddai pawb. "Pa siwpyr-bŵer wyt ti eisiau?"
"Hmmm," meddyliodd Llew am hir, ac yna cafodd syniad.



Mae Llew eisiau gwneud bybls! Dyna beth yw siwpyr-bŵer arbennig iawn.

Tynna lun ohonot ti fel archarwr!

Fy enw i yw


.....

Fy mhŵer i yw

.....

‘P’am Pengwin

Wyt ti’n gallu lliwio bob pengwin sydd â ‘p’arnyn nhw?



I’r oedolion
Mae chwilio am y lythyren ‘p’ yn helpu eich plentyn i adnabod llythrennau gweledol tebyg.

Wyt ti’n gwybod...?
Dyw pengwiniaid ddim yn gallu hedfan, ond maen nhw’n gallu gwibio trwy’r dŵr fel rocedi bach!


p p p p p

Wyt ti’n gallu ffurfio ‘p’?

Pos Pwy?

Wyt ti'n gallu cysylltu'r dotiau i weld pa un o ffrindiau Cyw sy'n cuddio?

Wyt ti'n gwybod...?
Mae eliffantod yn hoffi chwarae mewn pyllau o fwd. Dyna beth yw eli haul nhw!



Lliwia'r llun.

Plwmp

Sawl un o'r rhain weli di?


dyn eira


carw


pengwin


coeden Nadolig



Amser am Anrheg

Wyt ti'n gallu rhoi'r nifer cywir o anrhegion o dan y goeden?




Angen help? Gofyn i oedolyn i dorri allan yn ofalus i ti.



Hanukkah Hapus!

Wyt ti'n gallu cysylltu'r dotiau i weld beth mae Jangl wedi dod o hyd iddo?



Wyt ti'n gallu cyfri'r goleuadau?

I lawrlwytho 'Cerdyn Hanukkah' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Amser Gwely

gan Anni Llŷn

Edrycha ar y lluniau a'r geiriau, ac yna darllena'r stori. Bob tro weli di un o'r lluniau yn y stori, dwed y gair yn uchel.


Tŷ Cyw


Plwmp


Deryn


pêl-droed


gwely


llaeth


bwrdd


Bolgi


tŷ bach


tap


sebon

Un noson yn  roedd  a  wedi blino'n lân ar ôl bod yn chwarae  trwy'r dydd. Roedd y ddau eisiau mynd yn syth i'r  a chysgu drwy'r nos. Ond roedd hi'n bwysig eu bod yn paratoi, er mwyn cael noson dda o gwsg.

Yn gyntaf aeth y ddau i'r gegin am ddiod bach o . Ond roedd  mor flinedig, doedd ganddi ddim nerth i godi'r botel ac aeth y llaeth ar hyd y  i gyd. Yn lwcus, daeth  i'w helpu.

Wedyn, roedd hi'n amser mynd i'r  a chofio golchi eu dwylo yn lân. Ond roedd  mor flinedig, agorodd y  dŵr yn rhy sydyn a chwistrellodd y dŵr dros y ddau. Ceisiodd  bwmpio  yn ofalus, ond saethodd hwnnw drostyn nhw hefyd.


sebon


Jangl


past


brwsh dannedd


pyjamas


Plwmp


Deryn


Llew


Triog


Cyw


gwely


llyfr

Roedd dŵr a  ym mhob man, nes bod swigod yn llenwi'r lle. Diolch byth, daeth  yno i lanhau a helpu'r ddau i orffen ymolchi. Gwnaeth  yn siŵr ei bod hi'n rhoi ar y iddyn nhw hefyd, rhag ofn i hwnnw fynd yn llanast.


Roedd gwisgo yn anodd i a , roedden nhw bron yn rhy flinedig i godi eu coesau. Helpodd a y ddau rhag ofn i ddisgyn ar ei drwnc wrth wisgo. Yna, daeth i'w swatio yn y a darllen stori iddyn nhw. Ond cyn iddi agor y roedd y ddau yn chwyrnu'n braf. Doedd dim angen stori heno, wedi'r cyfan.

"Nos da," meddai gweddill y criw, cyn iddyn nhw hefyd baratoi i fynd i'r gwely.


I chwarae gêm 'Amser Gwely' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Cyw a'i Ffrindiau


Wyt ti'n gallu gorffen y lluniau yma o Cyw a'i Ffrindiau?




Cyw



Bolgi



Triog




Llew

S4C Cyw

6:00
Bob dydd Every day
s4c.cymru/cyw

Teimladau

Mae Bolgi'n teimlo'n flinedig. Tynna lun i ddangos sut wyt ti'n teimlo.



Pam wyt ti'n teimlo fel hyn?

I lawrlwytho 'Poster Teimladau' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Defnyddia'r lluniau yma i dy helpu.



hapus



trist



blin



ofnus



blinedig



sâl



cynhyrfus


Cywion Bach

I lawrlwytho ‘Ap Cywion Bach’ **clicia yma** neu sgania’r cod QR.


Wyt ti’n gallu helpu’r Cywion Bach i ffurfio ‘c’?

C C C C C


Mae llawer o bethau yn dechrau gyda ‘c’.
Beth am eu lliwio?




carw



car



Cyw



coeden

I’r oedolion
Mae meddwl am sain cychwynnol gair yn helpu eich plentyn i sillafu’r gair.

Ble mae Cyw?

Mae Cyw wedi mynd i’r ffair Nadolig.
Wyt ti’n gallu gweld ble mae’n cuddio?



Wyt ti’n gallu gweld y pengwin sy’n gwisgo het wlân?

Amser am Antur!

Mae Cyw a'i ffrindiau wrth eu bodd yn mynd ar antur yn yr awyr agored.

Beth am i ti fynd ar antur gydag oedolyn?

Rho ☑ yn y bocs pan rwyt ti'n gweld rhain.



dail ✓



olion traed ✓




corryn ✓

Wyt ti'n gwybod...?
Mae gan y corryn enw arall: pry cop.




pluen ✓



aderyn ✓

brigyn ✓





pwll dŵr ✓





S4C **Cyw**

6:00
Bob dydd Every day
s4c.cymru/cyw

Cofiwch ailgylchu Comic Cyw ar ôl ei ddarllen - diolch am helpu'r blaned!





I'r oedolion
I danysgrifio i e-bost misol Cyw
clicia yma
neu sgania'r cod QR.





I wrando ar 'Straeon Comic Cyw'
clicia yma
neu sgania'r cod QR.





Diolch am ddarllen! Rhifyn 2 yn dod yn fuan!

Cynnwys: Helen Davies, Anni Llŷn, Sioned Wyn Roberts, Sioned Mills
Dylunwyd gan: Bait Studio
Golygydd: Meinir Wyn Edwards
Ymgynghorydd Addysg: Gwenith Blair

CYNGOR LLYFRAU CYMRU BOOKS COUNCIL of WALES
Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government
S4C
boomcymru